BookTrust Cymru

# Amser Rhigwm Mawr Cymru
# Big Welsh Rhyme Time

## Dai'r Ffarmwr a'r Llygoden na Allai Odli Rhan 1

Gan Dai Woolridge, Addasiad Aneirin Karadog

Un tro, amser maith yn ôl
Odlai anifeiliaid ar y ddôl,
A deuai'r gorau i odli yn erbyn Dai'r Ffarmwr Ffôl

Deuai anifeiliaid o bell gan drotian, sboncio, carlamu ac ymlusgo
Dan glip clopio fel pe baent yn dawnsio disgo
At y lle roedd Dai'n Ffermio

***"Bydd yr odl orau'n ennill y wobr gorau,***
***Y cwpan o aur, ac yn eiddo i mi y mae,***
***Gan mai fy odlau innau yw'r gorau."***
Meddai'r Ffarmwr, o'r enw Dai

Ac felly cododd Dai arwyddion
i'r anifeiliaid ddod â'u penillion

***"Waw"*** meddai'r adar
A hoffai odlau clyfar!

***"Af i ennilllllllllllll"*** meddai'r neidr hir
Wrth fwyta cacen a sleifio ar hyd y tir

***"Mae hwn i mi-iiiiaw!"*** meddai'r gath
A wisgai het na welwyd erioed mo'i math!

***"Trof fy meicroffôn ymlaen"***
Meddai'r Ddraenog o'r enw Draen

Aeth <u>holl</u> anifeiliaid y fro i odli yn eu tro,
Ond cuddiodd un llygoden, am na fedrai o

Odlai'r anifeiliaid, fesul un,
A phawb yn cael hwyl, wel am lun!

***"Rhai da yw eich odlau, ond nid cystal â minnau***
***Yn fy ngeiriau mae'r odlau gorau, hawliaf y gwobrau!"***

Ond ai'r odlau gorau, go iawn, oedd Dai?
Cewch wybod yn fuan pan ddaw rhan dau...

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

#BwrlwmYRhigwmIBawb
#RhymingFunForEveryone

BookTrust Cymru

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Big Welsh Rhyme Time

## Dai'r Ffarmwr a'r Llygoden na Allai Odli Rhan 2

Gan Dai Woolridge, Addasiad Aneirin Karadog

***"Arhosssssssswch"*** hissssiodd y neidr hir!
***"beth am y lllllllllllygdoen, oes amsssssser ganddo?"***

A dyna lygoden yn codi'i phen, wrth sbecian drwy dwll yn y llawr pren,
***"Ond...ond...alla i ddim"*** meddai'r llygoden, ***"Chwerthin wnewch chi!"***
Ac atebodd y Jiraff, ***"na wnawn ni"***

***"Galli di wneud hyn!"*** Meddai'r Ddraenog o'r enw Draen,
Ac felly cerddodd y llygoden draw at y meic yn y blaen
Ni wyddent beth i'w ddisgwyl, roedd pawb ar bigau'r draen
***"yy...yy...yyy...tshw!!!!"***

Ebychodd pawb ac yna bu chwerthin mawr...

***"Chi'n gweld!"*** Meddai'r llygoden
Gan guddio ei phen yn nhŷ Dai o dan y llawr pren.

***"Rwy'n dwlu ar gaws, a heb orfod odli mae bywyd yn haws!***
***Fel cath yn mewian, mae odlau'n fy llenwi ag ofan,***
***Ac yn gwneud imi disian, fe welsoch eich hunan!"***

***"O, sbiwch acw"***, meddai'r carw
***"Mae Dai'n dechrau crio'n arw"***

***"Oni weli di, Lygoden, fod dy odli***
***wedi ein synnu!***
***Yn wir, wedi ein syfrdanu!***
***Roeddet ti yn gymaint gwell na fi!"***

***"Mwynheais eich odlau, bob un,***
***Felly beth am barti, i bawb drwy'r tŷ"***
***"Hwrê"*** bloeddiodd pawb,
I'r Llygoden a'r odlau lu!

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

#BwrlwmYRhigwmIBawb
#RhymingFunForEveryone